

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 11^{eg} Mai 2017

Canolfan Tywi, Llandeilo, 6pm

Yn bresennol:

Aelodau:

Mark Hadley (MH) – Cadeirydd
Jillie Gardiner (JG)
Glyn Evans (GE)
Richard Leggett (RL)
Caroline Evans (CE)
Ed Percy (EP)

Ysgrifennydd (dros dro)

Caroline Ferguson (CF) (Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC ac Ysgrifennydd – Dros Dro)

Ymgynghorwyr/ Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd

John McEvoy – (JMc) Rheolwr Diogelwch ar y Ffyrdd a Thraffig CSC
John Morgan – (JM) Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion a Chynrychiolydd Cenedlaethol
Helena Burke – (HB) Cynorthwydd Chwiliadau a Mynediad i Gefn Gwlad CSC
Brian Phillips – (BP) Cyngor Cymuned Bronwydd

Ymddiheuriadau (Aelodau)

Karen Burch (KB) – Is-gadeirydd
Martin Murray (MM) (Cynrychiolydd Cynnal a Chadw CSC)
Geoff Williams (GW)
Jane Evans (JE)
David Stacey (DS)
Chris Rankin (CR)
Gerald Brown (GB)
Chris Rankin (CR)
Keith Morgan (KM)

Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr/Sylwedyddion)

Glyn Jones (GJ) NRW

*Yn y cofnodion hyn mae CSC yn cyfeirio at Gyngor Sir Gaerfyrddin

EITEM	CAMAU I'W CYMRYD
Eitem 1 Gair o Groeso a Chyflwyniad MH Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd John Morgan, John McEvoy a Helena Burke i'r aelodau.	
Eitem 2 Aelodau Newydd/Ymddiswyddiadau Roedd Chris Rankin wedi ymddiswyddo, a hynny ar unwaith. Roedd gwybodaeth am hynny wedi'i darparu drwy ebost ynghyd â'i hymddiheuriad ar gyfer cyfarfod heno.	

<p>Ni roddodd CR unrhyw reswm. Awgrymodd MH y gallai anfon ebost at CR i ddiolch iddi am ei gwasanaeth i'r Fforwm ac i ganfod pam y mae wedi ymddiswyddo.</p> <p>Cododd MH bryder ynglŷn â diffyg aelod(au) i gynrychioli defnyddwyr anabl.</p> <p>CF – efallai y daw aelodau newydd i'r amlwg drwy broses y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.</p> <p>MH – A wnaiff yr aelodau i gyd gadw mewn cof unrhyw un a hoffai ymuno fel cynrychiolydd defnyddwyr anabl.</p>	<p>MH</p> <p>Pawb</p>
<p>Eitem 3 Ymddiheuriadau</p> <p>Daeth ymddiheuriadau i law ac fe'u cofnodwyd.</p>	
<p>Eitem 4 Cyflwyniad gan JMc ar y Broses Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar gyfer Priffyrdd Cerbydau</p> <p>Rhoddodd JMc gyflwyniad llafar byr i gyflwyno'i hun a'i dîm a'u cefndir o ran prosesu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar briffyrdd metlin er mwyn delio â materion megis cyflymder a chyfyngiadau parcio.</p> <p>Aeth ymlaen wedyn i egluro bod ei dîm, dros y 18 mis diwethaf, hefyd wedi cael cyfrifoldeb dros y broses Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar ffyrdd heb eu selio megis Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig. Roedd gan ei dîm lawer i'w ddysgu wrth wneud hynny o ran rhanddeiliaid/y rhai â buddiant a'r gwahanol werth a roddir i'r llwybrau hyn heb eu selio gan y cyhoedd a defnyddwyr.</p> <p>Wedyn, eglurwyd y broses a dywedwyd nad yw'r broses yn wahanol o ran Gorchmynion ar Gilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig ond eu bod nhw erbyn hyn yn gwerthfawrogi bod yna ymgynghoreion ychwanegol megis y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd a'r Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>Dim ond un Gorchmyn Rheoleiddio Traffig sydd wedi'i brosesu gan dîm JMc hyd yma. Bu hwnnw'n aflwyddiannus ac mae wedi arwain at her gyfreithiol.</p> <p>Dywedodd MH y gellid bod wedi atal hyn pa bai'r broses wedi bod yn fwy agored.</p> <p>Cytunai JMc ac mae'n falch fod cytundeb wedi'i gyrraedd, drwy gyfarfodydd y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd, i ddefnyddio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig arbrofol lle caiff cynigion eu cyflwyno ar gyfer Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig. Gyda Gorchmynion arbrofol gellir adolygu llwyddiant Gorchmyn cyn ei wneud yn barhaol neu'i dynnu'n ôl.</p> <p>Aeth y grŵp ymlaen i drafod y Gorchmyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig ym Morfa Bychan. Erbyn hyn cynigir y dylai fod yn orchymyn arbrofol.</p> <p>Eglurodd MH y sefyllfa wrth yr aelod gan ddweud bod penderfyniad wedi'i wneud i osod Gorchmyn Rheoleiddio Traffig tymhorol, arbrofol, ar y Gilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig sy'n arwain i Forfa Bychan er mwyn lliniaru'r</p>	

problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r difrod cysylltiol i'r amgylchedd naturiol.

Cytunai CE fod y cynnig yn ymddangos yn synhwyrol.

Dywedodd JMc mai dim ond os sicreir cyllid gan yr ymgeiswyr y câi ei brosesu.

Awgrymodd EP mai hon yw'r broses briodol o ran pob gorchymyn sy'n dod ger bron.

Awgrymodd JG y dylid adolygu pob un o'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig presennol o ran effeithiolrwydd/addasrwydd.

Cytunai MH mai dyna fyddai'n digwydd 'mewn byd delfrydol'.

Eglurodd JMc fod modd adolygu a dirymu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig os credir bod hynny'n angenrheidiol, ond fod cost i'r broses.

Awgrymodd JG mai dim ond Gorchmynion arbrofol y dylid eu defnyddio, heb eu gwneud yn barhaol byth.

JMc – dim ond am 6 mis y gall Gorchmynion arbrofol aros mewn grym, yna rhaid gwneud penderfyniad parhaol.

Gofynnodd JM a ddylid caniatáu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig lle mae'r cau i'w briodoli i ddiffyg cynnal a chadw.

Eglurodd CF fod y meini prawf ar gyfer gwneud Gorchymyn yn benodol. Un enghraifft fyddai osgoi perygl i'r cyhoedd – os yw llwybr yn creu risg o ran diogelwch byddai Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn fodd i atal y risg honno o berygl/anaf i aelod o'r cyhoedd. Ni fyddai'r ffaith fod y broblem honno'n deillio o ddiffyg cynnal a chadw yn dileu'r pryderon am ddiogelwch na dilysrwydd y Gorchymyn. Byddai angen ymdrin â chynnal a chadw fel mater ar wahân gyda'r awdurdod priffyrdd perthnasol.

Gorffennodd JMc drwy ychwanegu bod gwersi wedi'u dysgu a'i fod nawr yn gobeithio datblygu perthynas waith dda â'r Fforwm Mynediad Lleol yn ogystal â pharhau i weithio gyda'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd.

Holodd CE ynglŷn â chyfansoddiad y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd.

Eglurodd MH mai grŵp trafod anffurfiol yw ac nad oes ganddo gyfansoddiad felly.

Ychwanegodd MH ei fod ef a'r Is-gadeirydd yn gobeithio cwrdd ag Aelod newydd etholedig y Bwrdd Gweithredol dros faterion Mynediad i Gefn Gwlad i egluro gwaith y Fforwm. Mae'r cyfarfod yn cael ei drefnu gyda'r gobaith y bydd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn dod i rai o gyfarfodydd y Grŵp ac yn mynd ag unrhyw bryderon/ canmoliaeth ymaith gydag ef i'w hystyried yn yr un ffordd ag y mae adrannau fel Rheoli Traffig yn dechrau ei wneud.

Gofynnodd CE pryd y bydd Cynghorwyr/Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn cael eu penodi.

JMc – 24 ^{ain} Mai 2017.	
<p>Eitem 5 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16/02/2017</p> <p>Cafodd y cofnodion eu gwirio a'u cymeradwyo, yn amodol ar 1 cywiriad:</p> <p>1) Ychwanegu Richard Leggett at yr aelodau a oedd yn bresennol a thynnu'i enw o'r ymddiheuriadau.</p> <p>Bydd CF yn gwneud y cywiriadau ac yn eu hanfon i gael eu cyfieithu.</p>	CF
<p>Eitem 6 Materion yn Codi o'r Cofnodion</p> <p>Dim.</p>	
<p>Eitem 7 Cyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol 2017</p> <p>Darllenodd MH nodiadau GW ar gyfarfod y Cadeiryddion yr aeth iddo ar ran Sir Gaerfyrddin.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Codwyd presenoldeb y Fforymau ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – rhywbeth y dylai Sir Gaerfyrddin roi sylw iddo yn y dyfodol. - Dyddiad terfyn 2026 – yr awgrym yw y byddai rhaid i LIC ddeddfu'r adran berthnasol o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy cyn y câi ei gweithredu yng Nghymru. A allai/ddylai ALLau Cymru yn hytrach roi blaenoriaeth i ymchwilio i lwybrau sy'n cael eu defnyddio heb boeni am ddyddiad terfyn na chaiff byth ei ddeddfu o bosib? <p>Ychwanegodd JM y gallai rhoi blaenoriaeth i 'lwybrau sy'n cael eu defnyddio' (megis llwybrau sydd ar fapiau sylfaen yr Arolwg Ordnans ond nid Hawliau Tramwy Cyhoeddus) fod yn fwy buddiol na cheisio profi bodolaeth hawliau honedig ar hyd llwybrau anhysbys.</p> <p>Awgrymodd MH wedyn fod JM yn rhoi pigion o'r cyfarfod Cadeiryddion y bu ynddo.</p> <p>Dechreuodd JM drwy ddweud mor bwysig yw hi bod y Fforymau yn gweithio ac yn cyflawni swyddogaeth bwysig a'u bod yn fwy na dim ond 'siop siarad'.</p> <p>Gall y Fforymau wneud llawer eu hunain i wella'r argraff y maent yn ei gwneud ar eraill a chynyddu'u carisma.</p> <p>Daeth 3 phrif argymhelliad sylfaenol o'r cyfarfod:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Cynhyrchu cod ymarfer gorau fel bod modd meincnodi perfformiad TiFforymau mewn ffordd strwythuredig. 2) Cylchredeg papur o rolau a chyfrifoldebau y cytunwyd yn ffurfiol arnynt rhwng y Fforwm a'r ALI i helpu i gyflawni swyddogaethau pwysig y naill barti a'r llall. 3) Adolygiad Llywodraethu – dylid edrych ar reoliadau LIC i adolygu sut y caiff y Cadeirydd ei benodi, tymor Fforwm (ymestyn?), dyddiad terfyn o ran penodi fforwm newydd (cwtogi?) a'r meini prawf aelodaeth (sicrhau bod aelodau'n gallu neilltuo amser i'r fforwm). 	

Awgrymodd CE y gellid caniatáu cyfnod pontio i Fforwm presennol nes bydd y Fforwm newydd wedi'i benodi.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â ffurfioli perthynas Fforwm â Chynghorau Cymuned fel a wneir gyda Chynghorau Plwyf yn Lloegr – maen nhw'n rhan bwysig o ffocws Fforwm.

Prosiectau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus – dylai'r Fforwm Mynediad Lleol fod â rôl ffurfiol, yn darparu cyngor y mae rhaid i'r ALI ei ystyried.

Yma, ychwanegodd JG nad oes unrhyw beth yn y Rheoliadau sy'n caniatáu i'r Fforwm gael dylanwad ar benderfyniadau'r ALI – a fyddai modd cael mecanwaith i godi sylwadau i lefel uwch pa na baent yn cael eu hystyried?

JM – byddai hyn yn mynd yn ôl at y cytundeb rhwng y Fforwm a'r ALI.

Cynhadledd Fforymau Mynediad Lleol – ni fydd cynhadledd yn 2017 ond yn lle hynny ceir cyfarfod o Gadeiryddion ac Ysgrifenyddion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb ohonom o ran amcanion. Hefyd, trafodwyd y posibilrwydd o gyfarfodydd Ysgrifenyddion – rhaniad Gogledd/De.

Glastir – mae'n anodd i'r Fforymau wybod pwy sydd yn y cynllun a beth yn realistig y gellir ei gyflawni drwyddo. Nid yw'r system bresennol yn gweithio, mae angen rhagor o arweiniad gan y Fforymau fel sail i benderfyniadau Glastir – mae angen ymdrin â chynigion mewn ffordd fwy ymarferol.

Ychwanegodd MH yma fod Fforwm Sir Gâr wedi penderfynu peidio â chynnig sylwadau ar gynigion Glastir os nad yw'n gallu gweld data sy'n dangos yr holl dir o fewn y cynllun.

Eglurodd JM sut y mae Fforwm Ceredigion yn gweithredu – ni chynhyrchir cynlluniau penodol mewn cysylltiad â chynigion ond cyflwynir set o feini prawf cyffredinol. Mae'n werth nodi mai dim ond drwy'r cynllun 5 mlynedd y mae llwybrau Glastir ar gael.

Ychwanegodd CE fel pwynt terfynol i Fforymau'n gyffredinol – gallai Skype fod yn ateb rhagorol i aelodau nad ydynt yn gallu dod i gyfarfod(ydd) – byddai angen meicroffon amgylchol ar gyfer hyn.

Eitem 8 – Cyfarfod gyda Phenathiaid Gwasanaeth

MH – roedd llythyr y Fforwm at y Prif Weithredwr wedi cael ei basio i Adran Gyfreithiol CSC a'r Phenathiaid Gwasanaeth perthnasol.

Roedd cyfarfod wedi'i drefnu ym mis Ebrill 2017 rhwng y Fforwm a Phenathiaid Gwasanaeth – roedd yn gadarnhaol iawn, gan agor deialog ac ymdrin â phob un o'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr at y Prif Weithredwr.

Ymrwymodd y Phenathiaid Gwasanaeth i ddod i o leiaf un cyfarfod o'r Fforwm y flwyddyn – pob un i ddod i gyfarfod sydde â'r cynnwys mwyaf perthnasol i'w gwasanaeth nhw ar ei agenda, fel y penderfynir gan ysgrifennydd y Fforwm.

Ar ddiwedd y cyfarfod, cytunwyd ar set o gamau i'w cymryd, wedi'u cofnodi, – roeddent wedi'u cylchredeg i'r aelodau.

CF

Mae'r cyfarfod nesaf gyda Phenaethiaid Gwasanaeth wedi'i raglennu ar gyfer mis Hydref – gellir trafod unrhyw bryderon/broblemau yng nghyfarfod y Fforwm ym mis Medi a mynd â nhw i'r cyfarfod i gael eu trafod/datrys.

Eitem 9 Llwybr Dyffryn Tywi

MH – yn dilyn cais y Fforwm Mynediad Lleol am fanylion ariannol, darparwyd tudalennau o'r adolygiad (a gyflawnwyd gan ymgynghorwyr) a oedd yn cynnwys Arfarniad Economaidd, a dim arall.

Wedi hynny gofynnodd CF ar ran y Fforwm am yr adroddiad llawn. Nid oedd dim wedi dod i law mor belled. Mae'r cais diwethaf am ddiweddariad yn cael ei ystyried gan y Bwrdd.

Mae MH yn cwestiynu'r ffigurau yn yr arfarniad economaidd yn fawr.

JG – yn ôl y canllawiau, mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn ymgynghorai o ran mynediad ond nid ymgynghorwyd ag ef ac ni chafodd ei drin fel ymgynghorai statudol ar brosiect £5m.

Dyweddodd JM nad yw statws Fforwm fel ymgynghorai statudol ond yn berthnasol i rai pethau – efallai na fydd y ddadl hon yn mynd â ni i unman. Mae ganddo ddogfennau a allai helpu i fwrw goleuni ar hyn, a gallai eu hanfon, ond byddai'n fwy buddiol gwella'r berthynas rhwng yr ALL a'r Fforwm. Ni ddylai un o swyddogion CSC fod yn cau'r Fforwm allan.

Y farn y mae'r fforwm yn gytûn arni o hyd yw ei bod yn bryderus. Ai 'eliffant gwyn', o dan ddŵr y rhan fwyaf o'r flwyddyn, fydd y cynllun?

RL – y broblem yw nid a fyddai'r llwybr yn 'ased da' i'r Sir, ond y bydd yn costio miliynau o bunnoedd. O ble mae'r arian yn debygol o gael ei arallgyfeirio?

MH – mae'r Fforwm yn cwestiynu'r gwerth gorau.

EP – a yw'r cynllun yn rhoi sylw i ffordd osgoi Llandeilo?

CF – ydy.

MH – gellir codi'r mater gyda'r Aelod newydd o'r Bwrdd Gweithredol.

RL – oes modd cylchredeg enw'r Aelod newydd o'r Bwrdd Gweithredol i aelodau'r Fforwm cyn gynted â phosibl?

CF – mae swyddogion yr ALL yn awyddus i godi pontydd a gweithio gyda'r Fforwm – mae Rheoli Traffig a Chynllunio eisoes yn gweithio gydag ef.

JM – pam mae'r Fforwm gymaint yn erbyn y cynllun?

JG – cynllun gwerth £5m nad yw mewn gwirionedd o ddiddordeb i gerddwyr ac mae marchogion wedi'u cau allan hyd yma – nid yw'n gynllun i lu o ddefnyddwyr gwahanol.

CF

<p>MH – diffyg ymgynghori a diffyg rhyddhau gwybodaeth.</p> <p>RL – oes modd codi pryderon y Fforwm gyda'r Prif Weithredwr?</p>	MH
<p>Eitem 10 Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</p> <p>Mae tîm cyfreithiol y Parc wrthi bellach yn llunio Cytundeb diwygiedig. Caiff y Cytundeb newydd ei adolygu ymhen 3 blynedd, a gellir codi unrhyw bryderon bryd hynny.</p> <p>CF i gylchredeg unrhyw ddiweddariadau os gwneir cynnydd pellach cyn cyfarfod nesaf y Fforwm.</p>	CF
<p>Eitem 11 Adolygiad 2017 y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</p> <p>CF – mae'r broses yn mynd yn dda.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod o Randdeiliaid y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar 11/05/17, dan arweiniad Capita – roedd 12 yn bresennol, casglwyd rhywfaint o wybodaeth yn ystod y sesiwn, mae peth i ddilyn.</p> <p>Mae angen i'r adolygiad fynd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol cyn y cam nesaf – ymgynghoriad 12 wythnos (i fod i gychwyn ym mis Gorffennaf)</p> <p>Mae'r is-bwyllgor wedi cwrdd i fynd drwy gamau gweithredu a pholisïau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwethaf. Proses hir ond cynhyrchiol.</p> <p>Caiff dogfen ddrafft ei chylchredeg i'r Fforwm yn ystod ymgynghoriad 12 wythnos cyn cytuno'n derfynol ar bopeth.</p> <p>Caiff y rhestr ymgynghoreion ar gyfer yr ymgynghoriad 12 wythnos ei chylchredeg i'r Fforwm.</p> <p>Gallai aelodau'r Fforwm gylchredeg yr ymgynghoriad i grwpiau llai/lleol.</p>	CF Pawb
<p>Eitem 12 Diweddariad ar Recriwtio – Timau Cyfreithiol a Chynnal a Chadw Mynediad i Gefn Gwlad</p> <p>Diweddariad CF ynghylch: y <u>Tîm Cyfreithiol Mynediad i Gefn Gwlad</u> – mae'r broses wedi symud ymlaen, mae gwybodaeth am y swydd wag gyda'r Cyfarwyddwr ar hyn o bryd i gael ei chymeradwyo a'i hysbysebu eto.</p> <p>Dim ond symud y staff presennol o gwmpas a wnaiff y broses yn y lle cyntaf gan fod pob swydd yn yr Awdurdod yn cael ei hysbysebu'n fewnol i gychwyn a'i bod yn fwy tebygol felly o gael ei llenwi gan staff presennol.</p> <p>MH – dywedwyd wrth y Fforwm yng nghyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth y byddid wedi recriwtio i'r swyddi gwag o fewn 3 mis.</p> <p>Nid yw RL yn credu bod dichon gwneud hyn o fewn yr amserlen a roddwyd. A all y Fforwm ysgrifennu at y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol (Steve Pilliner) os na roddir sicrwydd ynglŷn â recriwtio?</p>	MH

<p>MH i ysgrifennu llythyr yn gofyn am ddiweddariad ar recriwtio ar ôl y dyddiad terfyn ymhen 3 mis.</p> <p>Diweddariad CF ynghylch: <u>Cynnal a Chadw, Mynediad i Gefn Gwlad</u> – mae Uwch Reolwr Hamdden Awyr Agored newydd wedi'i benodi ym Mhen-bre erbyn hyn (Neil G Thomas) ac mae wedi gofyn yn barod am gael bod ar restr y rhai a wahoddir i gyfarfodydd y Fforwm.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar ynglŷn â recriwtio/ailstrwythuro'r tîm Parcmyr. Nid chafwyd unrhyw adborth hyd yma.</p>	
<p>Eitem 13 Adolygiad CSC o Deithiau Cerdded y Sir</p> <p>Yr eitem i gael ei symud i gyfarfod mis Medi gan nad yw MM yn gallu dod i'r cyfarfod heno i egluro'r rhesymeg.</p> <p>Dywedodd RL ei bod yn drueni na all unrhyw un fod yn bresennol i egluro'r broses gan fod nifer o bryderon ynghylch Teithiau Cerdded y Sir. Awgrymodd y gellid gwahodd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol (Ian Jones) i'r Fforwm nesaf i drafod y pwnc ymhellach.</p> <p>Nid oedd CF ond wedi cael y meini prawf sylfaenol a ddefnyddiwyd i gysoni'r teithiau...</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Addasrwydd 2) A oes modd eu cynnal 3) Diogelwch 4) Lefel y defnydd <p>....Roedd Martin i fod i ymhelaethu ar hyn.</p> <p>Caiff y mater ei roi ar yr agenda nesaf a cheir trafodaeth gyda'r Cadeirydd ynglŷn â gwahodd y Pennaeth Gwasanaeth unwaith y bydd yr agenda lawn wedi'i drafftio.</p> <p>Rhestr ddiwygiedig o Deithiau Cerdded y Sir i gael ei darparu i'r aelodau.</p>	<p style="text-align: center;">CF</p> <p style="text-align: center;">CF</p> <p style="text-align: center;">CF/MM</p>
<p>Eitem 14 Adroddiadau ar Broblemau ar y Rhwydwaith</p> <p>Cychwynnodd RL y drafodaeth drwy ddweud bod gan y Fforwm flwyddyn lawn o adroddiadau erbyn hyn a bod cael adroddiadau rheolaidd fel hyn yn ffordd ddefnyddiol iawn o ganfod patrymau o ran problemau – yn enwedig cynnal a chadw.</p> <p>EP – gallai gwybodaeth yn yr adroddiadau helpu i adnabod problemau sy'n ailgodi.</p> <p>Nododd RL bod y ffigurau'n gostwng yn y gwanwyn, gan roi cyfle i CSC i gywiro pethau?</p> <p>O dan faterion cynnal a chadw, dywedodd CE ei bod yn debygol fod 64 o bomprenni ar goll yn golygu bod 64 o lwybrau troed ddim ar agor o ganlyniad.</p> <p>CF – mae pomprenni'n broblem gyson ac nid ydym yn gwybod hyd a lled y broblem yn iawn gan nad yw pob strwythur/croesiad heb bont wedi'i gofnodi</p>	

<p>ar CAMS, sy'n golygu nad ydynt yn yr adroddiadau. Dur galfanedig yw'r pontydd newydd felly byddant yn para'n hirach ond mae newid hen rai am rai newydd yn broses hir a chostus.</p> <p>Ychwanegodd RL ei fod yn gwerthfawrogi'r amser y mae'n ei gymryd i lunio'r adroddiadau ar gyfer y Fforwm. Maent yn werthfawr iawn i'r Fforwm.</p>	
<p>Eitem 15 Datganiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd</p> <p>Agorodd CF y drafodaeth i sylwadau cyffredinol.</p> <p>JM – trafodwyd y datganiad yng nghyfarfod y Cadeiryddion Fforymau. Nid oes unrhyw beth wedi'i wneud eto, rydym yn disgwyl am benderfyniad y Gweinidog.</p> <p>Yr arwyddion o'r trafodaethau yw na chaiff Model yr Alban ei fabwysiadu yng Nghymru. Gallai fod hawliau i ddefnyddwyr gwahanol ar lwybrau troed a chaiff gwelliannau eu gwneud ym maes y Grwpiau Ymgynghorol.</p> <p>CF – mae'n ymddangos mai crynodeb sylfaenol o'r Papur Gwyrdd yw'r datganiad, yn amlinellu'r angen am newid yng Nghymru drwy ddull 'Gwnaed yng Nghymru'....mae angen i hyn gysylltu'n ddi-dor â deddfwriaeth Lloegr.</p> <p>MH – bydd angen trafodaeth bellach unwaith y cyhoeddir y Papur Gwyn.</p> <p>JM – dylai gynnwys rhai diweddariadau diddorol i Fforymau Mynediad Lleol.</p>	
<p>Eitem 16 Unrhyw Fater Arall</p> <p><u>Adroddiad Blynyddol y Fforwm</u></p> <p>MH – Mae angen ei lofnodi'n derfynol...unrhyw welliannau?</p> <p>RL – y dyddiad yn anghywir ar y materion sydd heb eu cyflawni, angen ei gywiro.</p> <p>JM – mae cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn arfer da ac mae'n dda i'w ddefnyddio fel dogfen gyhoeddusrwydd. Rhaid ei gylchredeg yn eang.</p> <p>Cadarnhaodd CF fod Adroddiad Blynyddol Caerfyrddin yn cael ei gylchredeg bob blwyddyn.</p> <p><u>Fferm Wynt Brechfa</u></p> <p>Codwyd pryderon drwy'r Cerddwyr ynglŷn ag uwchraddio rhannau o lwybrau troed yn ffyrdd i'w defnyddio wedyn gan loriau'n cludo deunyddiau'r fferm wynt.</p> <p>Mae Jason wedi trafod y mater hwn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolydd y fferm wynt ac wedi cael sicrwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - nid yw'r gwaith ail-wynebu wedi'i gwblhau eto; caiff haen derfynol ei hychwanegu i wella'r wyneb fel ei fod o safon uchel 	<p>CF/MH</p>

- bydd yr wyneb newydd yn gwella hygrychedd i bawb
- bydd llystyfiant yn ailgytrefu ac yn meddalw golwg y llwybrau y gwnaed gwaith arnynt
- mae gwelliannau tebyg wedi cael eu gwneud i'r llwybrau hŷn drwy'r goedwig dros y blynyddoedd; fel arall byddent wedi cau. Ers cwblhau'r gwaith hwn mae'r llwybrau wedi glasu eto ac erbyn hyn maent yn edrych fel pe na baent wedi cael eu gwella. Mae'r darnau sydd heb gael eu gwella o gwbl fwy neu lai wedi cau
- ni fydd y darn o lwybr cyhoeddus 13/90 yn cael ei ddefnyddio mwyach gan gerbydau, yn unol â'r cynllun rheoli mynediad i'r cyhoedd.

Gofynnodd RL sut mae'r gwaith yn cael ei blismona?

CF – mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bresenoldeb ar y safle ac mae Bethan Edwards yn goruchwyllo.

Eglurodd EP ei fod ar y Pwyllgor Cyswllt â'r Gymuned dros Brechfa a'i fod yn clywed llawer o sylwadau negyddol, nid yn ymwneud yn benodol â mynediad i'r cyhoedd. Mae o'r farn mai dyna sydd wedi arwain at y sefyllfa bresennol lle mae'r Fferm Wynt yn gwneud gwaith yn y ffordd sy'n fwyaf cyfleus iddi hi.

Nid oedd JG yn credu bod hyn yn adlewyrchiad cywir o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyswllt.

Awgrymodd MH y dylid gwahodd y sawl fydd yn disodli Bethan Edward i gyfarfod nesaf y Fforwm er mwyn codi'r materion hyn.

CF

Awgrymodd CF y dylid gwahodd Gordon Beard hefyd – cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

CF

JM – os yw hawliau tramwy cyhoeddus yn dilyn ffyrdd cludo nwyddau, faint o ymgynghori a fu gyda CSC?

CF – bu ymgynghori a thrafodaeth eang gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Fferm Wynt ond mae'n ymddangos na ofynnwyd am/chyflenwyd manyleb yr adrannau a allai gael eu huwchraddio.

JG – eto, nid ymgynghorwyd yn briodol â'r Fforwm.

RL – beth y gellir ei wneud ynglŷn â gweithgareddau sy'n digwydd ar draws y datblygiad, na ddylent fod yn digwydd?

EP – dylai swyddog Gorfodaeth Gynllunio allu rhoi Hysbysiad Stop am dorri amodau'r caniatâd cynllunio.

Bydd y Fforwm yn mynd â hyn at yr Awdurdod perthnasol (Adran Gorfodaeth CSC).

MH/RL

Cerdded 3D

MH – methwyd dyddiadau terfyn mis Ionawr a'r Pasg, ac nid yw byth wedi cychwyn. Mae'r prosiect yn dal i ddisgwyl am gytundeb terfynol rhwng y gwahanol ALlau sy'n rhan o'r prosiect.

Cronfa Ymchwil Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

JG – mae'r Parc yn ariannu prosiect ymchwil ar effaith cŵn yng nghefn gwlad, gan ymgynghori â pherchenogion tir/ffermwyr. Gallai fod yn gynnwys diddorol i'w drafod gan y Fforwm. Mae angen cadw llygad ar y prosiect a gofyn am adborth.

Gelli Aur

Codwyd cwestiwn gan RL p'un a yw Llywodraeth Cymru wedi darparu arian ar gyfer y parc? A fyddai ar agor i'r cyhoedd?

Holodd CF ynglŷn â'r arian gan yr adran Hamdden – ni fu a wnelo CSC â hyn ers colli'r brydles.

Dyfarwyd grant o £100,000 gan Croeso Cymru; dim ymateb gan Croeso Cymru o ran beth y dyfarwyd yr arian ar ei gyfer na sut mae'r gwaith/gwariant yn cael ei fonitro.

Ymatebodd Richard Salmon (un o Ymddiriedolwyr Gelli Aur) i RL gan gadarnhau bod yr arian grant wedi'i wario. Mae'r caffi i fod i agor i'r cyhoedd ym mis Mehefin ynghyd â rhai o'r teithiau yn ddiweddarach.

Caroline

Yn mynd ar Absenoldeb Mamolaeth ddiwedd mis Mehefin, a bydd o'r gwaith am 10 mis.

Bydd HB yn hwyluso'r Fforwm yn ystod absenoldeb CF. Bydd unrhyw gynnwys yn ymwneud â'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad (cyfreithiol) yn dod drwy Jason neu Lucy a fydd yn dod i'r cyfarfodydd am yn ail.

Eitem 17 Eitemau Agenda ar gyfer y Dyfodol

- Llwybr Dyffryn Tywi
- Adolygiad Teithiau Cerdded y Sir - rhesymeg
- Fferm Wynt Brechfa
- Materion ar gyfer cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth
- Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - diweddariad
- Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - diweddariad
- Adroddiadau Chwarterol ar Broblemau
- Recriwtio - diweddariad

Eitem 18 Y Cyfarfod Nesaf

28^{ain} Medi 2017 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin.

Y lleoliad, dyddiad ac amser wedi'u cyhoeddi ar y wefan:

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol.aspx#.WnocOXzLjcs>

